

Ditectif Hanes - Chwilota am Atebion! gan Angharad Williams

Hoffech chi ddarganfod mwy am hen adeilad neu safle hanesyddol yn eich ardal? Ddim yn siŵr ble i ddechrau neu ble i fynd i ddod o hyd i'r atebion?

Mae sawl ffordd o fynd ati i ddarganfod gwybodaeth am y byd hanesyddol o'ch cwmpas. Isod mae ychydig o ganllawiau cyffredinol ynghylch pwy i gysylltu â hwy a ble i fynd i ddechrau dysgu mwy am eich hanes lleol.



Ysgol Genedlaethol Llandeilo
© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)

Lle amlwg i ddechrau chwilota am wybodaeth yw eich llyfrgell gyhoeddus leol. Mae'r rhan fwyaf o adrannau cyfeirio llyfrgellydd gyda deunydd am hanes yr ardal. Cewch gymorth gyda gwaith ymchwil yn eich archifdy lleol hefyd. Yno mae darluniau, mapiau a phob math o gofnodion am hanes eich cymdogaeth.

Bydd hi hefyd werth i chi ymweld â'ch amgueddfa leol gan y bydd ganddynt wybodaeth am wahanol adeiladau a safleoedd hanesyddol.

I gael manylion eich llyfrgell, archifdy neu amgueddfa leol edrychwch ar wefan [CyMAL](#), sef is-adran Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaethau hyn.

Gall sefydliadau cenedlaethol fod yn ddefnyddiol iawn ac yn aml mae ganddynt deunydd gwahanol i'ch llyfrgell neu archifdy lleol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt swyddogion addysg sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer ysgolion a gallant drefnu ymweliadau neu gynig adnoddau addysgol.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn arolygu, yn dehongli ac yn cofnodi safleoedd ac adeiladau hanesyddol ar hyd a lled Cymru. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd drwy archif cenedlaethol a gwasanaeth gwybodaeth Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC).

Gall CHCC eich helpu i chwilio am wybodaeth am dreftadaeth archeolegol, pensaernïol a hanesyddol Cymru gan gyflenwi amrywiaeth o wybodaeth a darluniau. Mae esiampl o amrywiaeth y deunydd sydd ar gael yn cynnwys awyrluniau o'r 1940au hyd heddiw, hen fapiau Arolwg Ordnans, darluniau o furluniau, yn ogystal â manylion a ffotograffau am wahanol adeiladau hanesyddol, ffermydd, chwareli neu fwyngloddiau, camlesi neu gapeli.

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau addysgol i'w cael ar ei [gwefan](#) neu gallwch chwilio'r [gronfa ddata ar-lein](#) am luniau neu wybodaeth.

Mae gan y Comisiwn Brenhinol swyddog addysg sy'n darparu adnoddau addysgol ac yn ymweld ag ysgolion.



Awyrlun o Aberystwyth, Mai 1946
© Hawlfraint y Goron: RAF / CBHC

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn llyfrgell adnau cyfreithiol, ac yn gartref i gasgliad mwyaf y byd o weithiau am Gymru a'r cenhedloedd Celtaidd eraill. Nid dim ond llyfrau a llawysgrifau sydd yma - gallwch hefyd bori drwy amrywiaeth o fapiau, cofnodion a gwaith celf.

Mae modd chwilio catalog ar-lein y llyfrgell ar ei [gwefan](#). Mae gan y Llyfrgell wasanaeth addysg ac maent yn croesawu ysgolion.

Amgueddfa Cymru

Drwy ymweld ag un o'r saith amgueddfa genedlaethol ar draws Cymru gallwch ddysgu llawer mwy am Gymru, o'i diwydiannau i'w diwylliant. Mae gwybodaeth bellach am gasgliadau a llyfrgelloedd yr Amgueddfa ar ei [gwefan](#). Mae swyddogion addysg ar gael yn yr Amgueddfa i'ch helpu ac maent yn darparu deunydd addysgol.



Rhan o Amffitheatr Rufeinig Caerllion, Gwent
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Fel arfer mae safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol ar agor i'r cyhoedd ac mae eu tywyslyfrau a byrddau gwybodaeth yn gymorth i ddysgu am hanes y lle. Er mwyn cael mwy o wybodaeth ac adnoddau addysgol ynghylch cestyll a safleoedd hanesyddol eraill yng Nghymru, edrychwch ar wefan [CADW](#) neu wefan yr [Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#).



Castell y Bere, Abergynolwyn
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Os ydych yn byw mewn Parc Cenedlaethol gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y byd hanesyddol yno ar eu gwefannau neu drwy ymweld â'ch canolfan dwristiaeth leol.

[Parc Cenedlaethol Eryri](#)
[Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog](#)
[Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#)

Gall swyddogion addysg y Parciau Cenedlaethol helpu ysgolion sydd am drefnu ymweliad neu gallant ddarparu adnoddau addysgol.



Tref Y Bala, Gwynedd Awyrlun o 2001
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol yn ogystal â bywyd gwylt. Ceir gwybodaeth am yr adnoddau addysg, llyfrgell a gwasanaeth gwybodaeth sydd ganddynt neu am un o'u digwyddiadau ar eu [gwefan](#).

Archaeoleg

Os mai darganfod mwy am archaeoleg neu safleoedd archaeolegol eich ardal yw eich prif ddiddordeb, gall y sefydliadau canlynol eich helpu a darparu gwybodaeth.

[Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd](#)
[Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#)
[Cyngor Archaeoleg Brydeinig Cymru](#)
[Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys](#)
[Archaeoleg Cambria \(Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed\)](#)
[Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd](#)
[Ymddiriedolaeth Archaeolegol Glamorgan-Gwent](#)



Maen Hir Gileston, Powys
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Hanes Teulu

Os ydych am ddarganfod pwy oedd yn byw yn eich tŷ 100 mlynedd yn ôl neu am ymchwilio i hanes eich teulu, edrychwch ar wefan [1901 census online](#). Gallwch chwilio am bobl oedd yn byw yng Nghymru a Lloegr rhwng y blynyddoedd 1841-1901 a gweld llun o'r dogfennau gwreiddiol.

Byddai ymweliad â [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#) yn fuddiol iawn wrth olrhain hanes eich teulu. Gellir chwilio deunydd pellach ar wefan yr [Archifdy Cenedlaethol / The National Archives](#).



Ffermdy Garn, Llanychaer, Sir Benfro
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Hanes Lleol

Byddai haneswyr brwd yn elwa o ymaelodi â chymdeithasau archaeolegol, hanesyddol neu hynafiaethol lleol neu fynychu cwrs dysgu gydol oes. Efallai fod

aelodau presennol rhai o'r cymdeithasau hyn ar gael i roi cymorth i ysgolion gyda phrosiectau hanes lleol.
Mae Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru yn trefnu teithiau ac ymweliadau blynyddol i wahanol safleoedd ac adeiladau hanesyddol. Mae mwy o wybodaeth ar eu [gwefan](#).



Hafod Arms, Pontarfynach, Ceredigion
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Mae gan lawer o sefydliadau cenedlaethol a lleol eraill ddiddordeb mewn hanes ac yn gallu eich helpu.

A pheidiwch ag anghofio edrych drwy ffolder Hanes Gwaith Maes!



Gwaith Maes :: Rhifyn 35